YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LII. RHAGFYR 1952 RHIF 12

'Crefydd yr Iesu'

Gan y Dr. IORWERTH C. PEATE, M.A., Sain Ffagan .

COFIAF fy hen athro, T. Gwynn Jones, unwaith yn disgrifio diwinyddiaeth fel gwyddor loerig, ac yn ychwanegu, rhag bod neb ohonom yn ansicr o'i feddwl, y gair *moonshine*. Daeth hyn oll i'm meddwl wrth glywed datganiad radio Mr. D. Gwenallt Jones ar "Y Cristionogaeth Glasurol". Dadl Mr. Jones oedd fod dau fath o grefydd yng Nghymru heddiw, sef 'dyneiddiaeth seciwlaraidd' a 'Christionogaeth glasurol.' Ni chydnebydd Mr. Jones fod y 'ddyneiddiaeth seciwlaraidd' yn Gristnogaeth o gwbl gan nad yw'n seiliedig ar ddiwinyddiaeth a chan mai 'crefydd yr Iesu ydyw, ac nid crefydd yr Arglwydd Iesu Grist.'

Cred Mr. Jones fod y ddyneiddiaeth hon (1) yn canolbwyntio ar ddyn, (2) yn credu yn naioni'r natur ddynol,—dau bechod anfaddeuol, (3) yn gwrthod yr angen am Iachawdwr, a (4) yn gofyn am addysg 'yn unig,' addysg i 'ddysgu delfrydau a gwerthoedd ysbrydol.' Ar y llaw arall, ebr ef, y mae'r Gristnogaeth Glasurol yn credu (1) bod Iesu'n Dduw-Ddyn, (2) bod 'gofynion y Bregeth ar y Mynydd yn ormod i ddynion . . . ond rhoes yr Arglwydd Iesu Grist . . . bwerau Ei Gariad i aelodau Ei Gymdeithas i'w byw hi,' (3) bod dyn yn bechadur, a (4) 'nad oes neb mor sicr obeithiol â'r Cristionogion diwinyddol.'

Dyna'n fyr seiliau datganiad Mr. Jones, a chan ei fod yn ei sgwrs yn fy nghysylltu i wrth fy enw â'r 'ddyneiddiaeth seciwlaraidd,' gweddus i mi yw sylwi'n fyr ar rai o'i osodiadau. Fe ymddengys fy mod i yn un o'r rheini sydd 'yn ymwrthod â diwinyddiaeth, a chondemnio dogma a chredo ac athrawiaeth,' yn credu yn 'yr Hen Destament (fel) llyfr pwysig i haneswyr ac anthropolegwyr' ac yn credu (coeliwch hyn neu beidio, geiriau Mr. Jones ydynt) i'r Iesu 'gael gyrfa lwyddiannus fel un o Gymry Llundain.' Yr wyf i a'm tebyg, yn ôl Mr. Jones, yn credu am y Bregeth ar y Mynydd mai pregeth ydyw 'y gellir seilio ar ei hegwyddorion

wareiddiad gwleidyddol ac economaidd perffaith.' Er mwyn fy lladd yn llwyr, dwg Mr. Jones ddiwinyddiaeth S.R. i brofi ei ddadl. Yr oedd S.R., ebr ef, yn ' Gristion diwinyddol ' a minnau, ys truan ohonof, yn ddim ond ' dyneiddiwr seciwlaraidd.' Cwyna Mr. Jones nad oes neb yn darllen pregethau S.R. heddiw. Yr wyf wedi darllen ei bregethau fwy o weithiau, o bosibl, na neb sy'n fyw, a darganfod trosof fy hun yr hyn a addefai S.R. yn gyson wrth fy nhaid a chyfeillion eraill *sef nad oedd yn ddiwinydd o gwbl* ! Ydyw'n wir, y mae dyfynnu S.R. ar ddiwinyddiaeth yn rhy ddigrif i'w ystyried. Egwyddor fawr S.R. (yn ei eiriau ef ei hun) oedd fod yr Iesu ' wedi ymddiried ei efengyl a'i achos i ofal ei bobl ar y ddaear ' a threuliodd ei oes i gyflawni'r ymddiriedaeth, ac i wneuthur ei ran i seilio ar egwyddorion y Bregeth ar y Mynydd ' wareiddiad gwleidyddol ac economaidd perffaith.'

Ers rhai blynyddoedd bellach, y mae Mr. Jones yn aelod o'r Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru, ac yn gyfrannog o'r ' Gristionogaeth y credwyd ynddi am ddeunaw canrif a hanner ond a wrthodwyd yn ail hanner y ganrif ddiwethaf ac a aeth ar goll yn ein canrif ni.' Nid ymddiheuraf felly am ddefnyddio geiriau un o brif ddiwinyddion yr Eglwys Anglicanaidd i ateb dadl Mr. Jones. Ebr y Canon Charles Raven, Athro Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Caergrawnt : ' The Monophysite and Augustinian doctrines . . were successful in smashing Nestorious and Pelagius : they did not prevent the disruption of the Church, the breakdown of learning and civilisation, the distortion of Christianity into a religion of insurance against hell and escape from the world. They did not prevent—they may even be said to have hastened the closing in of the Dark Ages. There is no evidence at all, so far as I can see, that their successors in the present day, who claim so arrogantly to be the champions and restorers of orthodoxy, will succeed in doing more than reducing the Church to a few small pietistic and highly factious cliques, obscurantist in their thought, superstitious in their practices, and wholly ineffective in restoring the unity or extending the frontiers of Christendom.' Dyna farn un o ddiwinyddion mwyaf yr ynys hon am yr athrawiaethau ' clasurol ' y tyb gŵr fel Mr. Gwenallt Jones eu bod yn hanfodol i Gristnogaeth. Ac y mae angen dywedyd hyn wrth ddosbarth o Gymry, gŵr gan mwyaf a droes eu cefnau ar Anghydffurfiaeth, sy'n siarad yn oraclaidd (*arrogant* yw gair Raven) am Uniongrededdyr etholedig ac am y traddodiad Cristnogol fel rhywbeth a berthyn yn arbennig i'w clic hwy.

Gwrandawer ym mhellach ar y Canon Raven : ' To me . . . it is essential that Christ and His sacrifice should be regarded both as the representative and climax of the creative process and at the same time as the initiator and sustainer of the new age. To estrange Him from nature and history, to give to Him the character of an alien

invader, to make of His manhood a disguise and of His temptations a sham fight, this is to empty His revelation of its power to reveal and to reduce His incarnation to the level of previous and mythical theophanies.' Dyma'r ateb terfynol i gynheiliaid y Gristnogaeth glasurol a diwinyddol. Y mae'r dyneiddwyr Cristnogol yn credu yn yr Iesu fel dyn ac nid fel ' alien invader.' Credant yn undod hanfodol y greadigaeth nad oes un rhan ohoni mewn amser na lle wedi'i dieithrio oddi wrth natur a hanes. Oherwydd hynny, credant mewn Dyn, ym mhersonoliaeth pob dyn, ym mhosibiliadau dwyfol pob dyn. Yr Iesu (chwedl un hogyn, byw ei ddychymyg), a roes wyneb i Dduw ; y mae pob dyn wedi'i greu i ddangos yn ei berson wedd y Tad. Dull arall o gyfleu hyn oedd cred S.R. fod yr Iesu ' wedi ymddiried ei efengyl a'i achos i ofal ei bobl ar y ddaear,' neu ys dywed Raven, ' a real doctrine of the continuity and energy of God's working in the world—that is, a worthy theology of the Holy Spirit.' Ac am ein bod yn credu yn yr Iesu, credwn mewn Gras a Chariad, mewn Addfwynder a Goddefgarwch, ac ym mhob ffurf ar Oleuni fel y priodoleddau sy'n rhoddi cadernid i bersonoliaeth dyn. Nid ar ddaioni'r natur ddynol y mae ein pwyslais, ond ar bosibiliadau'r daioni sydd mewn dyn i beri iddo yntau ddangos yn ei fywyd wyneb y Duwdod, os derbyn grefydd yr Iesu.

Os ' credwyd ' yn y Gristnogaeth glasurol am ddeunaw canrif a hanner, ni chredwyd, ysywaeth, yr un mor gyffredinol fod y gallu gan ddynion i fod yn ddwyfol fel yr oedd yr Iesu'n ddwyfol. Dengys y byd sydd ohoni heddiw fethiant y credu ' clasurol.' Aeth yn rhy hwyr yn y dydd i gredu ffiloreg y byd cyn-wyddonol ac ofergoelus am grefydd, Duw, a Dyn, a thrist i mi yw gweld neb a brydera am ddyfodol y ddynoliaeth yn gwahaniaethu rhwng ' crefydd yr Iesu ' a ' chrefydd yr Arglwydd Iesu Grist.'

Nid yn anfwriadol y cyhoeddaf y nodyn hwn yn Yr Ymofynnydd. Pobl crefydd yr Iesu fu'r Undodiaid erioed, ymofynwyr oll, ac fel minnau y maent yn falch o'r traddodiad hwnnw. Y mae eu ffydd, fel yr ymddengys i mi, yng ngoleuni iachusol Addysg, eu cred ddiysgog yng ngallu Addfwynder i atgyweirio bywyd, a Chariad trwy eu goddefgarwch yn llewyrch i'w llwybr. Eiddynt hwy a'u tebyg yw'r wir Ddyneiddiaeth Gristnogol. Angen honno sydd ar y byd canys collodd personoliaeth dyn ei urddas trwy raib y Wladwriaeth, haearnwch annynol gwyddoniaeth a dylanwad adweithiol y ddiwinyddiaeth glasurol. Daliwn ni nad yw gofynion y Bregeth ar y Mynydd ' yn ormod i ddynion ' canys trwy grefydd yr Iesu gwelsom wyneb Duw. Sylweddolwn ein amryfal ddiffygion ond mewn ysbryd cwbl ostyngedig awgrymwn i ystyriaeth ein beirniaid eiriau Pawl : ' Eithr Duw a ddangosodd i mi na alwn neb yn gyffredin neu yn aflan.'

Caradoc Evans

Gan y Parch. J. Seymour Rees.

A welsoch chwi ef yn ôl y cnawd, rywdro? Dyma gipdrem arno.

Safai'n gymharol o daldra ei gorff tenau, esgyrnog. Yr oedd ei groen braidd yn felyn, ei wedd yn ddifrifol, a'i osgo hamddenol yn hyll.

Deuai dieithrwch dwfn allan o drem ei lygaid craff, gwibiog.

Tystiai llun ei ben, ffurf ei dalcen, ac esgyrn uchel ei gernau mai dyn hynod oedd.

Dull pobl Ceredigion o'i farnu oddi wrth hyn oll fu dweud fod "ei hanner yn Sir Benfro".

Ganed David Caradoc Evans ym Mhantycroy, plwyf Llandysul, godre Sir Aberteifi. Yn fuan, symudodd ei rieni i ymyl pentref Rhydlewis.

Am beth amser bu ei dad, William Evans, yn arwerthwr amlwg yn yr ardal. Syrthiodd i fedd cynnar trwy ei flysiau. Bu hynny'n fantais i'r teulu. Rhoddwyd i'r fam, Mali, gwraig ddarbodus o foncyff praff, drech cyfle i godi ei phlant ar aelwyd Lanlas.

Danfonwyd Caradoc i Ysgol y Bwrdd yn y pentref dan ddisgyblaeth J. N. Crowther, Sais a ddysgodd Gymraeg yn rhugl.

Mewn braslun o'i hanes, cyhoeddodd y disgybl na ddysgwyd gronyn o ddim iddo yno, erioed, ac ni chododd yn uwch na'r safle isaf ond un yn ei ddosbarth. Beth bynnag am gywirdeb ei eiriau hyn, cafodd ei ddewis yn athro am beth amser, yn ddi-gyflog. Lled brin o amynedd ydoedd, ond yn barod iawn i estyn cosfa drom i droseddwyr.

Gwn am dad a fu'n ei wylio lawer tro wrth ddod o'r ysgol i dalu'r pwyth yn ôl am ei driniaeth o'i blant.

Daeth yn adeg i'r crwtyn gefnu ar ei waith heb yr un argoel am ddim wrth ei chwaeth. Eithr digwyddodd ar y pryd hwn, ac yntau yn dair blwydd ar ddeg, bod angen disgybl-athro ar yr awdurdodau. Ymddangosodd dau ymgeisydd dan ystyriaeth derfynol y rheolwyr. Merch oedd un a godwyd ar aelwyd ddylanwadol yn yr ardal. Ar wahan i hynny hefyd, meddai ar ddawn i'r swydd. Y llall oedd Caradoc Evans, y bachgen heb le i droi am waith i gadw corff ac enaid ynghyd. Ar ei grogi ni fedrai lafurio ar dyddyn ei gartref. Digwyddodd ysgarmes ffyrnig rhwng dwy blaid gyfartal mewn rhif.

Gorfu i'r cadeirydd, ar ôl ceisio osgoi hynny mewn llawer modd, roi ei bleidlais ef i dorri'r ddadl. Safai hwnnw mewn lle cynnil iawn am mai gweinidog yr Efengyl ydoedd, ac aelodau o'r ddau deulu yn perthyn i'w eglwys. Pleidleisiodd yntau dros y ferch. Gellir

yn hawdd ddychmygu'r effaith ar y llanc. O'm rhan fy hun dyfarnaf i'r dylanwad ddechrau ei suro. Os oedd y duedd yn ei natur i hynny, dyma gyfle i'w chynyddu. Gwyddai hefyd mai prin iawn oedd y mathau o foddion cynhaliaeth yn ei ardal enedigol. Yn ychwanegol, nid oedd gan ei fam adnoddau i'w gadw'n segur nac arian i'w addysgu'n hwy ar gyfer un cylch wrth ei chwaeth.

Wrth ddarllen nifer o ysgrifau ar Garadoc Evans ni welais i neb sylwi ar y digwyddiad hwn fel achos i gynhyrfu ei nwydau. Os medrir ei goll-farnu am roi ffordd yn yr amgylchiad di-bwys, efallai, rhaid cofio bod i feddwl tyner ei siom yn rhwydd, a'i ddiogelu hefyd yn sicr a hir.

I gadarnhau fy ngosodiad, gellir gweled i'r gweinidog a benderfynodd ei dynged y tro hwn, ddod yn amlwg iawn dan ei fflangell yn ei "My People" (1915), a "Capel Sion" (1916). Yn 1944, mynegodd am y Gweinidog hwn, coch ei wallt, y meddai ar gymwysterau arbennig i fod yn ysgolfeistr i Hitler. Do, poerodd ef lysnafedd ar y cadeirydd hwnnw drwy ei oes.

Yn blentyn ansicr ei ddyfodol, pedair ar ddeg oed, a'i Saesneg yn brin ac afrwydd, ciliodd Caradoc Evans i dref Caerfyrddin, a'i brentisio i ddilledydd. Am y deuddeng mlynedd nesaf ceir ef yn ymbalfalu. Aeth i Gaerdydd, a dod i Lundain yn y diwedd. Yn ystod yr holl amser hwn corddai digllonedd yn ei galon, a'i ysbryd yn anesmwyth.

Wedi dod i'r Brifddinas teimlodd awydd am wybodaeth. Ymunodd â dosbarthiadau mewn gramadeg Saesneg yn Toynbee Hall, a symud i fynychu Coleg y Gweithwyr yn Crowndale Road i'w addysgu mewn llenyddiaeth.

Ymhen amser enillodd wobr o bum gini am Stori Fer mewn cystadleuaeth ynglŷn â chylchgrawn newydd, *Home Chat*. Yn ddiweddarach, gwahoddwyd ef i wasanaethu fel aelod o fwrdd golygyddol hwnnw.

Torrodd ei gysylltiad â masnach gan ymgyflwyno'n llwyr i newyddiaduraeth. Ar fyr dro, teimlodd ei hun yn ei afiaith oherwydd ysgrifennodd yn helaeth dan ffugenw, "D. C. Emmot." Dringodd yn gyflym nes dod yn olygydd i "Ideas," a sicrhau cryn lwyddiant. Ar gyfrif cweryl â'r perchnogion, cefnodd i ymuno â'r "Amalgamated Press". Bu'n is-olygydd i un o'r papurau darluniadol, dyddiol a fedd y cylchrediad ehangaf yn y deyrnas, y *Daily Mirror*. Cyhoeddwyd ei straeon yn *The English Review*. Daeth yn is-olygydd i *T.P.'s Weekly*, ac ar fwrdd golygwyr *Everybody's Weekly*.

Yn ychwanegol at hyn hefyd bu'n ddarllenydd dros gyhoeddwyr nofelau, a gosod pris arnynt. Yn y cysylltiad hwn adroddaf stori i gyrraedd dau amcan. Digwyddodd cyfaill i mi gyfansoddi nofel Saesneg. Yn 1924, cynigiodd hi i'r cyhoeddwyr, Andrew Melrose. O dipyn i beth, galwyd ef i'r swyddfa ynglŷn â threfnu'r pris am y gwaith. Cyrhaeddodd yr awdur, a dywedwyd wrtho am eistedd i

ddisgwyl eu cyfarwyddwr. Cyn hir, wele'r drws yn agor, a llais yn dweud wrth ddod i'r ystafell : "Sut mae'r hwyl, Mr. Griffith" ? Atebodd yntau mai Sais ydoedd, ond iddo dreulio llawer o'i fywyd yng Ngheredigion, ac iddo gael plot ei nofel yng Nghymru. Cafwyd ymgom faith ar werth y gyfrol, a dywedodd Caradoc Evans y buasai'n cymeradwyo pris da amdano oherwydd bod ynddi, chwedl yntau, gymaint "am Gymru fydd yn gwrthweithio dylanwad fy narluniau i". Ychwanegodd hyn : "Cofiwch, pe gwyddwn mai Sais ydych, yna buaswn yn cymeradwyo can punt yn llai".

Ychydig flynyddoedd yn ôl, hysbyswyd fi gan ŵr amlwg ym mywyd Llundain y gwyddai ef fod Caradoc Evans yn ei ddydd yn un o'r dynion pwysicaf yn Fleet Street, byd newyddiaduriaeth Prydain. Rhoddwyd imi o fannau eraill, yn ogystal, brofion o'i amlygrwydd mewn cylchoedd llenyddol. Ar un amgylchiad, cefais addewid ganddo, pryd bynnag y deuwn i Lundain y byddai iddo fy nwyn i gysylltiad â rhai o wŷr blaenaf y wasg a llenyddiaeth yn y Brifddinas.

Priodol yw ychwanegu iddo ef fod yn noddwr i nifer o Gymry ieuainc awyddus i ddringo ar ysgol llenyddiaeth Lloegr. Gwyddai Caradoc Evans mai ef ar un adeg oedd y Cymro mwyaf ffiaidd i gannoedd o'i gyd-genedl. Yn wir, yr oedd y syniad hwn yn atgas ganddo, a chadwai y tu allan i derfynau Cymru am gyfnod. Wele, daeth cyfnewidiad. Ymbriododd â'r Iarlles Barcynska (neu Oliver Sandys). Dylanwadodd hi arno i droi ei wyneb tua Chymru, a thyfodd y ddau i garu'r trigolion gyda brwdfrydedd. Teimlodd ef y medrai'r Cymry wneud yn hollol yr un fath â chi Bill Sikes, sef cusanu'r llaw a'i fflangellodd.

Cofiaf yn dda am un bore o'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghastell Nedd, 1934. Gwelais ef yno yn gynnar, ac yn rhoddi ei ymosodiad chwyrn ar y sefydliad. Cefais ymgom ag ef am oriau, a thorrwyd ar ein traws yn dra mynych gan bobl yn ei groesawu i'w mysg yn galonnog. Cofiaf iddo droeon ddatgan ei syndod, a theimlo'n falch o'r geiriau caredig. Y diwedd fu iddo droi at ŵr y wasg a gafodd yn gynharach ei syniadau chwerw, a'i atal i gyhoeddi gair ohonynt.

Bellach amcanaf drafod Caradoc Evans fel awdur. Bu ef yn fflangell drom ar gefn ei gyd-wladwyr. Ymgreiniai nifer ohonynt dan y ffrewyllau a osododd ef yn ei lyfrau a'i ddrama, "Taffy". Amlwg yw iddo fynnu darluniau mewn gormodiaith, ac yn gynnyrch i'w ddychymyg, ac nid gwrthrychau mewn cig a gwaed.

Hawliaf ar bwys adnabyddiaeth agos o'r ardal y maged ef ynddi y cadarnheir fy ngosodiad hwn. Y mae mwyafrif y trigolion yn wŷr a gwragedd diwylliedig, ac yn *gynnyrch i weinidogion cryf*. Cofier bod y gennad ' coch ei wallt ' yn ddiwinydd praff a anrhydeddwyd fel doethor gan Brifysol Cymru.

Yn fynych cymer ofal mawr i ddarlunio dyn mewn safle arbennig. Wrth ei gyflwyno gesyd o'i amgylch yr holl ffaeleddau a berthyn i bawb o'i fath. Pryd bynnag y mynna ddisgrifio diacon gwael, gwisgir amdano bob gwendid sydd ym mhawb o'r diaconiaid a adnebydd. Felly y mae un cymeriad yn ymgnawdoliad o'r drygedd a berthyn i amryw yn yr un safle.

Gorliwiwyd ganddo yn yr holl ddigwyddiadau, a thynnwyd hwy i'w man eithaf, gydag amcan. Rhydd inni enghreifftiau o'r hyn sydd yn llythrennol amhosibl. Er hynny, wrth inni ddadansoddi'n graff ceir mwy o wir nag a dybir yn frysiog, a mwy hefyd nag a ddymunir ei ganfod. Drwy'r llyfrau a'r erthyglau cafwyd ystormydd o fellt a tharanau fu'n rhy drwm a phoenus i'n hysbryd. Daeth ef i'n dychrynu, a gwelwn yn awr nad ydym mor dda ag y tybiwyd gennym unwaith. Sylweddolwn hefyd nad ydym mor ddrwg ag y myn ef gredu ein bod.

A oedd Caradoc Evans yn euog o'r hyn y gwrthodai gŵr chwaethus ei gyflawni? Mentrodd gyfieithu'n llythrennol ymddiddan ei gymeriadau. Gesyd y geiriau mewn Saesneg yn yr un drefn â'r Gymraeg. I ddangos y gwrthuni, cymerer y frawddeg Ffrengig hon: "Il y a quatre-vingt-dix-sept veau la-bas". Cyfieithiad priodol ohoni i Saesneg yw: "Below there are ninety-seven calves". Dull Caradoc Evans o'i gosod fyddai hwn: "He there has four-twenty-ten-seven calves". A ellir meddwl am ddim yn fwy echrydus na hyn? Troseddir deddfau iaith yn y ffordd hon ugeiniau o weithiau yn ei gyfrolau.

Symudaf ymlaen i nodi bod yr awdur yn euog o gam-gyfieithiadau haerllug. Y mae'r Saesneg yn gyfoethog o eiriau cyfystyr. Felly rhaid ymarfer doethineb. Beth a wnaeth Caradoc Evans? Bob tro, ac yn bwrpasol, cymerodd y gair gwaethaf. Nodaf enghraifft,—"gynau gwynion"—allan o'r emyn. Ceir hwn fel "white shirts". Mewn mannau eraill, ac yn ddiddiwedd gosodir "Iesu gwyn" yn "white Jesus". Onid ofnadwy o feiddgar yw defnyddio "the Great Male", neu "the Big Man" yn gyfieithiad o "Y Gŵr Mawr"?

Cofiaf imi unwaith ddarllen adolygiad o un o lyfrau Caradog Evans yn y cylchgrawn safonol, "The English Review". Cyhoeddwyd ef yno fel y gŵr blaenaf yn ei arddull mewn Saesneg ar y pryd hwnnw.

Mewn ysgrif yn 1944, ysgrifennodd Caradoc Evans y darn hwn a ddyfynnaf: "Somehow I came to read Genesis and when I was about the middle of it "Jiw-Jiw this is English writing" I said to me. On a Saturday night I went to the Hammersmith Palace and there I saw Marie Lloyd, and "Jiw-Jiw" I said to me, "she tells a story not by what she says but what she does not". I kept up Genesis and Marie Lloyd.' A oes yna ddatguddiad yn y cyfaddefiad hwn?

Beth oedd amcan Caradoc Evans yn ysgrifennu yn y modd y gwnaeth? Ar yr adeg y cyhoeddwyd *My People* dywedwyd mai'r amcan mewn golwg gan yr awdur oedd "to portray that he may make ashamed". Yn ddiweddarach, ar y traeth yn Llangranog, estynnwyd y gofyniad hwn iddo gan berthynas: "Wel, Dai, beth sydd dan dy gesail yn cyhoeddi dy lyfrau a'r ysgrifau"? Yr ateb clir a phendant oedd: "Arian".

Ar brynhawn o Haf yn un o'i flynyddoedd olaf treuliais amser yn ei gwmni. Siaradai ef mor rhydd a rhwydd nes imi ddweud yr hoffwn ddarllen cyfrol o'i waith yn gosod allan yr ochr orau i fywyd Cymru. Edrychodd yn syn arnaf, ac atebodd yn bwyllog: "Na, nid oes gennyf y ddawn i hynny". Cafwyd distawrwydd cyn iddo ychwanegu: "Welwch chi, y mae yna bryfedyn nad yw'n hoffi'r dŵr glân ar wyneb llyn. Gwell ganddo dreiddio i lawr at y bryntni sydd yn y gwaelod. Felly finne. I love to wallow in the mud". Buom yn dadlau am amser nes iddo, o'r diwedd, addo cyfansoddi'r nofel. yn ôl fy awgrym. Cefais ei theitl. Dyma fe "The New Jerusalem"

Ar Ionawr 11, 1945 bu Caradoc Evans farw heb gadw ei addewid.

Oddiar hynny sefais droeon ar lan ei fedd mewn mynwent ar lethr serth yn perthyn i gapel Horeb, y Groes Newydd, ychydig yn y wlad allan o Aberystwyth. Bob tro, gwelais olygfa fawreddog. Dacw'r Wyddfa mewn haenen o niwl yn y pellter. Saif Cader Idris yn agosach i ddatguddio cadernid bonheddig. Wrth fy nhraed ymron gorwedd Pumlumon yn osgeiddig.

Tywalltaf innau ddeigryn gwylaidd ar fan ei fedd. Er mai gŵr rhyfedd iawn ydoedd mewn llawer ystyr, eto cofiaf na welodd ein gwlad fab caredicach i'w fam urddasol. O dir ei hir gartref deil o hyd i estyn darpariaeth ar gyfer Josi, ei frawd eiddil o ddirnadaeth

Credaf innau fod ysbryd Caradoc Evans yng ngofal Un sydd yn Drugaredd am Dragwyddoldeb.

Mynwent Pantydefaid

Gan D. Davies, Sychdy.

Mewn byr eiriau ceisiaf roddi trem yn ôl ar fynwent sydd mor annwyl i lawer ohonom, a gall fy nhrem estyn bellach am dros drigain mlynedd. Lle cerddo ymhellach y mae'n pwyso ar dystiolaeth hwn ac arall hŷn na myfi.

Y mae yma ddwy Fôt (*vault*), sef yn gyntaf eiddo teulu Frondalau a adeiladwyd cyn cof gennyf. Y mae hon o gerrig i gyd a math o silffoedd cerrig hirion tair rhes ohonynt i gynnal yr eirch. Llanwyd hon tua 1915 ac fe'i cauwyd yr un pryd. Y mae yma un arall, eiddo hen deulu Tregroes, ac fe adeiladwyd hon tua'r flwyddyn 1888 a chofiaf yn dda am ei hadeiladu. Adeilad o frics ydyw ac fe ddodwyd brics ar y llawr hefyd yn union fel y gwneir gyda thai byw heddiw. Yr oedd yn adeilad destlus iawn ond y mae'r cyfan wedi ei gau yma a'u guddio gan fod priddfeini a llechi wedi eu defnyddio yma yr un fath ag mewn bedd.

Cladddwyd saith o weinidogion yma sef T.T., Llanfair ; John James ; John Thomas ; Thomas Thomas (Cribor) ; William James ; T. Arthur Thomas a'r Prifathro J. Parc Davies.

Y mae cof da gennyf am yr hen fynwent a llawer ohoni y pryd hwnnw yn wag, ond fel y gallem ddisgwyl, y mae'r fynwent newydd erbyn hyn wedi galw nifer fawr o denantiaid adref. Sylwais ar wahaniaeth rhwng y ddwy, yn yr hen gosodwyd coed i gofio'r ymadawedig ond blodau a welir yn y newydd.

Dyma sut y cafwyd y fynwent newydd. Tua 1880, mae'n debyg, gwerthwyd ystâd Llanfair y mae'r fynwent a llawer o ffermydd yr ardal yn rhan ohoni. Penderfynodd cynulleidfa Pantydefaid brynu'r tir tuhwnt i'r hen fynwent, sef pedwar o gaeau a elwid Pantshifft. Hen weinidog y lle, y diweddar T. Thomas oedd y prynwr ond oherwydd rhyw anhawster y pryd hwnnw bu raid i Mr. Thomas ei feddiannu fel eiddo iddo ef ei hun. Felly pan ddaeth angen am ddarn helaethach o dir fe roddodd ef dir mynwent yn ddi-dâl i'r gynulleidfa.

Yn ystod gweinidogaeth Arthur Thomas fe brynodd ef y caeau y soniais amdanynt heb ymgynghori â'r gynulleidfa. A phan oedd pawb yn ceisio dyfalu o ba le ceid arian i dalu, fe gyhoeddodd yntau ar ddiwedd gwasanaeth un Sul beth oedd wedi digwydd, ac y cawsai'r gynulleidfa wybod yn nes ymlaen. Ac er syndod i bawb rhoes olwg arall ar bethau, gan ddweud ei fod wedi cyfarfod dau foneddwr yn Llundain, a'u bod hwy, ar ôl holi'n fanwl am y capel a'r fynwent, wedi addo bod yn gyfrifol am dalu'r cyfan, ynghyd â throsglwyddo'r cyfan i feddiant ymddiriedolwyr y capel. Ni ŵyr neb, hyd y gwn i, pwy oedd y cyfeillion hynny, a'r telerau oedd nad oedd Mr. Thomas i enwi neb.

Yn nesaf y mae yn naturiol i chwi ofyn pa bryd y dechreuwyd claddu yma. Y mae'n bur debyg fod mynwent yma yn bur fuan ar ôl cychwyn yr achos yn 1802. Y mae carreg ar y mur yn dweud hanes claddu y Parch. T. Thomas, Llanfair yn 1818, tua 16 mlynedd wedi dyddiad y cychwyn. Y mae gennym gyfrif gweddol o'r nifer a gladdwyd yma hefyd. Tua thrigain mlynedd yn ôl a rhagor yr oedd gŵr o'r enw J. Jones, Ty-isaf yn dorrwr beddau i Bantydefaid a chadwai ef gyfrif gofalus mewn llyfr bychan. Nid oedd llyfr

John Jones yn cyfrif ond am yr hyn oedd ef wedi gladdu, ac ni wn yn iawn beth a ddaeth ohono ar ôl ei farw tua hanner can mlynedd yn ôl. Tybiaf weithiau iddo fynd i law y Parch. T. Arthur Thomas oherwydd darparodd ef lyfr at y gwaith sy'n rhoddi cyfrif oddi ar 1818 ymlaen. Cynnwys restr gyflawn, i bob golwg, gan nodi hyd yn oed ddydd y gladdedigaeth a phwy oedd yn gwasanaethu. Clod iddo am waith mawr.

Cofiaf bellach am chwech o bobl a fu'n gofalu am dorri beddau a gorwedd pedwar ohonynt yma erbyn hyn. Erys Evan Jones, gynt o Gaebach, ar dir y byw yn 85 oed. Hir oes iddo eto. E. J. Evans sydd yn gofalu am y gwaith heddiw ac y mae ef a phwyllgor y fynwent yn fawr ei gofal o'r tir cysegredig.

Adolygiad

Gan D. Jacob Davies.

Cyn Oeri'r Gwaed. Cyfrol o ysgrifau gan Islwyn Ffowc Elis, Gwasg Aberystwyth ; 97 t., pris 5/-.

Pan ddoi'r Mochwr i'n tŷ ni i brynu mochyn gofelid fod pryd blasus yn ei ddisgwyl yn gyntaf peth ac i'w ganlyn cawsai sgwrs am bopeth diddorol yn y byd ond—y mochyn ! Rhyw *ddigwydd* gweld y mochyn y byddai wrth fynd am dro o gwmpas y tyddyn cyn ymadael, a rhyw *ddigwydd* ei brynu am bris go dda cyn mynd. Dyna sut y mae gwerthu mochyn a synnwn i ddim nad hon yw'r ffordd orau i werthu llyfr hefyd. Gawn ni roi cynnig arni ?

Y gŵyn fawr yn erbyn adolygwyr Cymru yw ein bod yn adnabod yr awduron yn rhy dda a dyna farc du i mi ar unwaith—adwaen Islwyn Ffowc Elis. Nid oeddwn yn ei adnabod yn dda, cofiwch, ond bu yn cysgu yn fy ngwely ddwywaith a chredaf fy mod gyda'r cyntaf i gyhoeddi ei waith tua 1944. Wedi darllen *Cyn Oeri'r Gwaed* adwaen ef yn well o lawer a dyna farc da i'r awdur, oblegid dau beth a geisiaf gan ysgrifwr sef bod iddo ddweud rhywbeth gwerth ei ddweud a bod iddo ddweud rhywbeth gwerth ei ddweud amdano ef ei hun. Heb y ddeubeth yma y mae'r ysgrif fel ffurf lenyddol yn gelfyddyd ofer yn nwylo gwŷr slic o arwynebol sy'n dweud rhyw bethau bach chwit-chwat o bert heb fwy o afael arnynt nag sydd ar fwrlwm dŵr-a-sebon. Cwpanaid arall o de cyn gweld y mochyn ? Na ! O'n gorau, allan a ni 'te !

Y mae pedigri da i hwn, wyddoch chi, a dim ond i chi droi i hanes y ' Royal Welsh ' (*National Eisteddfod*), Llanrwst am 1951, fe welwch iddo ennill y Fedal Ryddiaith a £25 o dan dri Pen-llenor Cymru. Yr oedd canmoliaeth uchel iddo gan y triwyr galluog yma ond erbyn hyn y mae'r fargen yn fwy o lawer ac fe ychwanegwyd chwe ysgrif at y ddeg a oedd yn y gystadleuaeth. Mae'r mochyn wedi tewhau !

Dyma flas o'r testunau i chwi, "Adfyw"—atgofus ; "Sut i yrru Modur", lle mae'r awdur yn olrhain ei ymdrechion ofer i yrru modur, ac os nad yw'n hollol wir y mae mor ddigri ag un o straeon *Yr Henllys Fawr*. Daw'r bardd a'r

athronydd i'r amlwg yn "Eiliadau Tragwyddol" ac y mae'r gweledydd craff ar waith yn "Craig y Pandy" a "Pe bawn i'n wybedyn". Yr orau o ddigon i mi yw'r ysgrif ar "Y Sais" a hynny am iddo daro ar rywbeth sydd yn hen mewn llafar ond newydd mewn llyfr. Gadawer iddo egluro, "Caiff Saeson ysgrifennu a fynnant am Gymry, a Chymry am Gymry ond gocheled Cymro rhag rhoi'r Sais mewn du a gwyn". Y mae ganddo bethau deifiol i'w dweud. Yn wir, credaf y dylid cyfieithu'r ysgrif hon i'r Saesneg ac ar ôl ei hargraffu mewn llythyren fras, hoelier hi wrth ddrws y Tŷ Cyffredin. Ceir perlau yn yr ysgrifau eraill drwyddi-draw ac y mae gan Mr. Elis ddawn arbennig i lunio geiriau at ei wasanaeth. Dyna'r gair "sbardun" fel cyfieithiad o "*throttle*" modur a "Ffugliw" am "*camouflage*". Ac i orffen gyda'r pethau da, y mae'r lluniau yn gyffrous o gelfydd a'r gyfrol i gyd yn lân odiaeth. Prin a dibwys yw'r meflau a chwaeth-o-chwith yr adolygydd sydd ar fai o'u gweld, efallai. Er enghraifft, ni hoffaf yr ymadrodd "Dywedwyd *i* mi . . .", iawn neu beidio, oblegid "dweud *wrth*" a hoffaf. Y mae naws anhyfryd hefyd ar gystrawen y frawddeg a geir ar t. 50, "Y macnt yn niferus, llateion y ddannodd ddynol". Ceir "ar" yn lle "ac" t. 32, ll. 5, ac eto "andano" yn lle "amdano" ar t. 69. Eithr coeliwch fi, brychau bychain yw'r rhain ar *Fochyn* gwerth ei brynu !

Undeb Gwragedd Undodaidd Ceredigion

Cyfarfu Pwyllgor Gwaith yr Undeb uchod yng Nghaeronnen, Llanbedr-Pont-Steffan, Hydref 4ydd. Daeth nifer dda o'r Aelodau ynghyd, a llywyddwyd gan Mrs. Williams, Dolaugwyrddion. Miss Eluned Davies—aelod ieuanc o gangen Caeronnen a gymerodd y rhannau defosiynol a Miss Sali Davies, B.A. wrth yr organ.

Derbyniwyd nifer o lythyrau oddi wrth aelodau yn ymddiheuro am eu habsenoldeb. Cyflwynodd y Llywydd gydymdeimlad y Gymdeithas a theuluoedd galar amryw aelodau.

Gwnaed trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir yng Nghapel y Groes. Penderfynwyd yn unfrydol i wahodd Mrs. Mitchell y Llywydd Cyffredinol i annerch y Cyfarfod.

Cynhelir cwrdd nesaf y Pwyllgor Gweithiol yng Nghwmsychpant neu'r Ciliau.

Gwnaed yn hysbys gan Mrs. Davies, Caerwilym, yr Ysgrifenyddes y cynhelid Rali yng Nghaerdydd, Hydref 15ed a'r 16eg, a chymhellodd yr Aelodau i fod yn bresennol. Penodwyd dirprwyaeth o dair, sef, Mrs. Park Davies, Y.H., Mrs. Oswald Williams a Mrs. Marles Thomas i fynd i gyfarfod arbennig o'r Rali.

Hysbysodd Ysgrifenyddion y gwahanol ganghennau fod gwaith y gaeaf wedi dechrau a bod argoelion am dymor llwyddiannus.

Ar derfyn y Cyfarfod, mwynhaodd yr aelodau dê braf a ddarparwyd gan gyfeillion Caeronnen.

Diolchwyd iddynt gan Mrs. Williams, Dolaugwyrddion a Mrs. Evans, Brynllefrith.

ER COF AM JOHN EVANS, PONTBREN, TREGROES.
(*Un hen fugail yn cofio am y llall*).

Hen gyfaill da i'w gofio
O lwybrau bore oes,
A gweithiwr diwyd, medrus
Yn ardal lân Tregroes.

Ar daith o bedwar ugain
Yn loyw cofiaf John,
A'i deulu mawr fel yntau
O ddymuniadau llon.

Dau fugail banc y Dinas
Yn llanciau deuddeg oed,
Dau bartner heb eu newid
Nad oedd ei gwell i fod.

Mae llwybrau Penralltgerrig
A'r blodau heddiw'n llon,
Un bugail sydd yn aros—
Mewn hiraeth ar ôl John.

Boed bendith gyda'u deulu
Mewn dyddiau eto ddaw,
'Does derfyn byth ar gariad
Yr Anweledig Law.

Llaw Bugail ydyw hithau
A'i gwaith o hyd yn fwyn,
A'i gallu 'n fwy na'r ddeulanc
Fu'n gwylio ffordd yr ŵyn.

D. Davies. *Penlon, Tregroes.*

Priodasau.

Awst 28, 1952 yng nghapel Brondeifi, gan y Parch. T. O. Williams, M.A., gyda chynorthwy parod y Parch. Anthony Davies, unwyd mewn glân briodas ANNIE DIANAH JONES, merch hynaf Mr. a Mrs. Evans Jones, Felindre, Pencarreg a JOHN WALTER REES, unig fab Mr. a Mrs. Rees, Bwlchyffin, Cellan. Oes hir a phob dedwyddwch iddynt.

Awst 30, 1952 yng nghapel Brondeifi, gan y gweinidog, unwyd mewn glân briodas DAVID SYDNEY MORGAN, unig fab Mrs. Morgan a'r diweddar Mr. William Morgan, Council Houses, Treherbert ac EILEEN JONES, unig ferch Mr. a Mrs. Ted Jones, Railway Terrace, Cwmanne. Cysur ac iechyd fo iddynt.

Medi 16, 1952 yng nghapel Brondeifi, gan y Gweinidog a'r Parch. Mr. Jenkins, Gweinidog y mab ifanc, unwyd mewn glân briodas, MARY AERONA PRICE MORGAN, unig ferch Mr. a Mrs. Morgan, Bridge Street, Llanbedr a WILLIAM THOMAS JOHN OLIVER, gyriedydd bus *Western Welsh*, a mab Mr. a Mrs. Oliver, Pontrhydfendigaid. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd iddynt.

Medi 13, 1952 yng nghapel Brondeifi, gan y Gweinidog, unwyd mewn glân briodas ROSEMARY DAVIES, merch iengaf Mr. David a'r diweddar Mrs. Davies, Hengoed, Market Street, Lampeter a OWEN DYSON JONES, Harford Row, Llanbedr. Dymunwn iddynt iechyd a hapusrwydd.

Hydref 14 yng Ngalltyblaca, unwyd mewn priodas, DAVID THOMAS JONES, Plasnewydd, Llanwenog (Station Master Llanybydder) a Nyrs INGEBORG ROSMARIE SCHULZE, Sanatorium Llanybydder. Gwasanaethwyd gan y Parch. S. E. Bowen.

Priodwyd yng nghapel Cribyn ar y ddeunawfed o Hydref, MARY JANE (MOLLY), merch Mr. a Mrs. Jenkins, Glasfryn, Cribyn a CECIL, mab Mr. a Mrs. Davies, Tynant Farm, Farmers, Llanwrda ; y Parch. J. Islan Jones, M.A. yn gwasanaethu.

Marwgofion

Ar y trydydd-dydd-ar-ddeg o fis Hydref yn Llwyncelyn, Cribyn bu farw JANE, merch y diweddar Thomas a Maria Harries, yn 82 oed. Bu'n ddiwyd iawn drwy ei hoes wrth orchwylion amaethyddol, ac yn ei blynyddoedd diwethaf yn byw gyda'i mab, Jenkin, yn yr hen gartref. Claddwyd hi ym mynwent Capel Cribyn ar yr unfed-ar-bymtheg, y Parch. J. Islan Jones yn gwasanaethu.

Hydref 9 bu farw THOMAS DAVIES, Pleasant View, Alltyblaca yn 80 oed. Saer maen oedd wrth ei alwedigaeth ac iddo air da fel crefftwr a gweithiwr gonest. Hyd y gallodd bu yn ffyddlon gyda'r achos yng Ngalltyplaca, lle yr oedd yn ddiacon. Daeth tyrfa luosog iawn i'w angladd yng Nghapel-y-Bryn y Llun dilynol. Gwasanaethwyd gan y Parchn. S. E. Bowen, Lewis Williams, W. H. Davies, Aberduar (B), T. Rees, Brynteg (A) a S. Morgan, Ficer Llanwenog. Gadawodd weddw, mab, dwy ferch a pherthnasau lluosog mewn hiraeth o'i golli.

Medi 23, JOHN JONES, Cyn-ysgolfeistr Llanddewi-Aberarth, yn 66 oed. Flynyddoedd cyn ymsefydlu yn Aberarth bu yn athro yn Ysgol Talgarreg dan y diweddar Mr. Rhys Davies. Ymbriododdâ merch yr Henbant, a hannai o un o hen deuluoedd Undodaidd ffyddlon yr ardal. Ers blynyddoedd caethiwyd ef gan afiechyd hir a chaled. Yr oedd yn gymeriad cadarn, yn ddarllenwr eang, ac yn uchel ei ddiddordebau. Mawr oedd y parch iddo yn Nhalgarreg ac yn Llanddewi—yn enwedig ymhlith ei ysgolheigion. Gedy ar ôl briod, a fu yn fawr ei gofal drosto, a dau fab. Estynnir iddynt gydymdeimlad llwyr yn eu hiraeth dwys. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan Reithor y Plwyf, yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Parchn. Davies (M) ; W. M. Jenkins (Ficer) ; D. M. Davies, Hawen (A) ; Aubrey Martin a J. Marles Thomas.

Medi 26ain yn 79 oed, bu farw RACHEL DAVIES, Ffosesgob, Llandysul. Benyw hawddgar, a didwyll ei chymeriad ydoedd hi—llydan ei chydymdeimlad, a chymwynasgarwch yn lond ei chalon. Collodd ei phriod tua 25 mlynedd yn ôl, gan adael dan ei gofal fferm fawr ac 8 o blant ar yr aelwyd. Gyda chalon ddewr a gofal Cariad ymroddodd ei hun yn llwyr i'w chyfrifoldeb fel pen y teulu, a thrwy'r blynyddoedd gwelwyd esiampl Mam yn llywodraethu yn Ffosesgob. Gwannaidd fu ei hiechyd y blynyddoedd olaf hyn, a chaethiwyd hi i'w chadair yn y cornel. Ond ni laciodd ei gafael na'i gofal, a chadwodd ei diddordeb yn fyw yng ngwaith y fferm hyd y diwedd. Hi oedd yno yn llywodraethu. Hyd at gyfnod ei hafiechyd bu yn aelod ffyddlon ym Mhantydefaid. Iddi hi 'roedd yr achos yn bopeth, ac nid oedd Capel ar wyneb daear Duw fel ei Chapel hi. Heddiw nid yr achos yn unig, ond pawb gâi gymwynasgarwch a didwylledd, yn galaru ar ei hôl. Estynnir cydymdeimlad dwys â'r teulu yn eu hiraeth. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Carmel y dydd Mawrth dilynol a gwasanaeth cyhoeddus yn y Capel. Gwasanaethwyd gan y Parchn. T. R. Evans (Ficer) ; Evans, Conwil (B) ; D. M. Jones (Curad) ; Dd. Rhydderch ; D. A. Williams (A) a'i gweinidog—y Parch. J. Marles Thomas.

Tachwedd 14, "MARGARET", baban bychan i Mr. a Mrs. Jones, Cwmafon, Pentrecwrt. Claddwyd ym mynwent Pantydefaid, a'r Parch. J. Marles Thomas yn gwasanaethu. I'r teulu bach boed pob ymgeledd.

Siarad a'r Iar.

Hoeden hesb ! Heb oedi'n hwy,—dos yn awr
Dewis nyth i ddodwy !
Ni chaf dâl am feddal wy,—
O ! 'r hen iar, dyro un wy.

Arthur Morgan.

Newyddion yr Enwad

DYDDIADUR GWILYM MARLES.—*Yn ystod* 1953 *cyhoeddir detholion o Ddyddiadur Gwilym Marles am y flwyddyn* 1850. *Cofir mai bachgen* 15—16 *oed oedd y pryd hwnnw, ond hyd yn oed y pryd hwnnw gellir gweld brig yr athrlyith fawr yn dod i'r golwg. Y mae'n llawn o ddyheu am addysg a gwybodaeth, yn fyw o ddarluniau o gyflwr bywyd gweithiwr gan mlynedd yn ôl a dengys gefndir crefyddol y llanc hwn a oedd i dyfu i fod yn un o brif arweinwyr achos rhyddid yn ein gwlad. Dyma gyfle i ni yn awr i dalu teyrnged i'w gof drwy ofalu bod Copi o'r* YMOFYNNYDD *yn mynd i law pawb sy'n ymfalchio yn ei draddodiad. Soniwch amdano wrth gyfeillion sy'n ymddiddori mewn Hanes a Llên ac atgofiwch wŷr eich Capel am eu dyletswydd. Y mae D. J. Williams, Abergwaun, y Llenor adnabyddus a ysgrifennodd gymaint am gymeriadau bro Gwilym Marles wedi addo ysgrif ddisgrifiadol o'r fro i gyflwyno'r detholion. Y mae copïo'r gwaith hwn wedi golygu wythnosau o waith dyfal i'r Golygydd ac ni ofyn dâl ond eich cefnogaeth i'w wneud yn hysbys. Cyhoedder os gwelwch yn dda o bob pulpud ac ar bob cyfle arall.*

AMNON.—Parheir ysgrif y Parch. Simon Jones ar Amnon gynted ag sy bosibl. Y mae'r awdur wedi methu gorffen ei ymchwil yn erbyn y rhifyn hwn ac y mae'n nodweddiadol ohono i beidio gadael dim na fo'n drwyadl o' law.

SILVAN EVANS.—Y mae'r Parch. Seymour Rees wedi paratoi ysgrif helaeth ar hanes y geiriadurwr a'r llenor enwog hwn a anwyd ym mhlwyf Llanarth. Derbyniwyd yr ysgrif yma yn awchus gan olygyddion *Y Llenor*, ond ysywaeth bu farw'r cylchgrawn hwnnw cyn ei chyhoeddi. Er bod cylchgronau enwog eraill yn ceisio amdani, dewisodd Mr. Rees ei rhoi i'r YMOFYNNYDD ac fe gyhoeddir y rhan gyntaf yn rhifyn Ionawr. Mawr yw ein diolch iddo am gyflwyno'r gwaith safonol hwn.

RHODDION AT "YR YMOFYNNYDD".—Ni aeth mis heibio yn ystod 1952 heb gyfraniad at yr achos gan garedigion o bob cwr o'r wlad. Gobeithio na fydd y flwyddyn newydd heb ei chalennig i'r "Hen ŵr" a ddaw a'i gwdyn at eich drws. Diolch y mis hwn i'r Parch. Ben Davies, The Rectory, Latchingdon, Essex am chwe swllt ac i David Williams, Frondolau (gynt Dolaugwyrddion) am ddwy gini.

YMNEILLTUO.—Wedi dwy flynedd a deugain yn y Gwasanaeth Sifil y mae'r Arolygydd Jenkin S. Davies o'r Felinfach wedi ymneilltuo o'i waith. Un o feibion Llythyrdy Felinfach ydyw a'r olaf erbyn hyn o naw o blant athrylithgar. Yn ystod y saith mlynedd ar hugain diwethaf bu Mr. Davies yn Arolygydd yng ngwasanaeth Bwrdd Iechyd Cymru a hefyd dros Weinyddiaeth yr Yswiriant Cenedlaethol. Cydnabyddwyd ei waith drwy ei ddyrchafu i'r Swyddfa Ganolog yng Nghaerdydd ac yno y bu hyd at ei

ymddiswyddo. Dangoswyd y parch mawr a oedd iddo gan yr anrhegion gwerthfawr a dderbyniodd oddi wrth ei gyd-swyddogion mewn cyfarfod arbennig a gynhaliwyd at y pwrpas. Talwyd teyrnged uchel iddo gan wŷr dylanwadol ac amlwg. Bellach mae Mr. Davies wedi dychwelyd yw hen fro ac y mae yn wresog gyda'r achos yn Rhydygwin. Bydded iddo ef a'i briod flynyddoedd hir a hapus yw dymuniad ei gyfeillion.

LLÊN Y MYNWENTYDD.—Cofiwch mai Rhag. 14eg yw'r dydd olaf i dderbyn y cyfansoddiadau ar gyfer cystadleuaeth y Nadolig (gwêl rhifyn Medi).

BWLCHYFADFA.—Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch ar yr 28ain o Hydref. Cawsom ddwy bregeth odidog gan ein gweinidog, y Parch. Aubrey Martin a thorf yn gwrando yn y ddwy oedfa. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss Thomas, Green Grove a Mrs. Evans, Pantglas. Ar y nawfed o Dachwedd cafodd y gweinidog y fraint o dderbyn 16 o aelodau newydd a da clywed fod rhagor ar y ffordd.—Deëllir fod Mrs. Jones, Llawrcwrt wedi rhoi £100 at yr achos yn ddiweddar a mawr ddiolch y gynulleidfa iddi.

ALLTYPLACA.—Llongyferchir Miss Anne Davies, Teifi Hill, Llanybydder ar ennill ohoni ysgoloriaeth i'r Brifysgol yng Nghaerdydd. Bu yn dra ffyddlon yn yr Ysgol Sul a'r Capel a rhoddwyd cydnabyddiaeth sylweddol iddi am ei gwasanaeth wrth yr organ. Llwyddiant mawr iddi yn y Coleg.

ABERDÂR.—Yn ddiweddar cynhaliwyd gwasanaeth o Fawl a Chân yn Highland Place gyda Chôr Cwmbach yn ymuno a'r gynulleidfa. Yr oedd y lle yn orlawn a'r canu'n fendigedig. Y mae Plant yr ysgol Sul, sydd wedi codi o ddim i dros hanner cant yn ystod y chwe mlynedd ddiwethaf, yn paratoi Cantata ar gyfer y Nadolig.—Cynhaliwyd Ffair Sborion lwyddiannus dros ben gan wragedd yr Hen Dŷ Cwrdd ddiwedd Tachwedd a gwerthwyd pob stondin yn lân. Yn wir yr oedd y gwerthwyr mor daer fel na fu ond y dim lleiaf rhyngddynt a gwerthu het orau un o'r diaconiaid !

GELLIONNEN A'R GRAIG.—Er fod Gŵyl Bregethu Flynyddol y Gynulleidfa eleni yn gwrthdaro a chyfarfod arbennig mewn eglwys gyfagos cafwyd cynulliadau pur dda. Clywais un hen fam annwyl yn dweud wrth ddod allan o'r oedfa nos Sul, "Daeth Mr. Davies a llond car o fendith ganddo". Cymhellir fi i wneud rhagor o sylwadau mewn iaith fodurol gan y frawddeg yna. Mentraf arni. Ni ellir fy sacio oherwydd yr wyf yn rhoi fyny'r gwaith fel gohebydd fel mae.—Mi a edrychais ac mi a welais fodur yn teithio a'r *sidelights* arno yn y bore. Y prynhawn, gwelais y cwmni yn teithio tua rhyw hafan ddymunol iawn. Nos Sul, gwelais y cerbyd mewn tipyn o helbul. Yr oedd y nos yn dywyll a'r niwl o gylch yn cau. Bu raid wrth ' Foglights ' cyn cyrraedd y fro gynefin. *Nos Lun*, beth amdani ? Noson yr Headlights oedd hon a disgleirdeb eu llewych yn syfrdanu pawb. Peidiodd pob synnwyr ond y clyw a buom yn gwrando mewn anghofrwydd hollol. Siom oedd

clywed y gennad yn dweud "Gallwn fynd mlaen am awr arall, ond mae'r amser wedi mynd". Trueni na ellid fod wedi stopio'r cloc y noson honno. Diolchgarwch calonnog i'r Parch. D. Jacob Davies am ei genadwri rymus a hynny ar fyr rybudd.

HWNT AC YMA.—Y mae'r eglwys yn Abertawe wedi dathlu 28ofed pen blwydd yn ddiweddar.—Ar y 19 o Hydref gosodwyd bwrdd newydd er cof am Moy Evans yn yr un capel a'r Parch. Simon Jones yn gwneud y cyflwyniad.

STRIPIAU FFILM.—Mae pwyllgor addysg Ceredigion yn awyddus i gael rhestr o bawb yng Nghymru sy'n cynyrchu stripiau ffilm ac o'r stripiau a baratowyd ganddynt. Anfonwch fanylion a phrisiau y stripiau a gwybodaeth os yw'r nodiadau yn Gymraeg i'r Dr. Henry Jones, Cyfarwyddwr Addysg, Aberystwyth.

RHODD PANTYDEFAID oedd y Rhifyn Dwbl a gafwyd i groniclo hanes y dathlu. Yn lle gofyn i chwi dalu swllt amdano y mae'r chwech arall yn dod o boced gwŷr hael y lle hwn. Sylwed eraill at y dyfodol !

PANTYDEFAID.—Bellach mae cyfnod dathlu canmlwyddiant a hanner yr achos wedi dod i ben. Bu llwyddiant mawr ar y cyfan. Cynhaliwyd y Cyfarfodydd Arbennig ar y 21ain—22ain o Hydref. Yn y gwasanaeth rhag-arweiniol nos Fawrth, dan lywyddiaeth Mr. Bryn Jones, B.Sc., siaradwyd gan Mr. David Davies, Sychdy ; y Parch. J. Marles Thomas a Mr. Ifan Jones, Aberystwyth—yr olaf dros Aelodau Gwasgaredig yr Achos—a chymerwyd y rhannau arweiniol gan Mr. D. O. Evans. Bore Mercher cynhaliwyd pwyllgor y Gymdeithas dan lywyddiaeth y Prif-Athro J. D. Jones, B.A., B.D.—ac yn y prynhawn, eto dan lywyddiaeth y Prif-Athro, cafwyd hanes yr achos gan y Parch. T. O. Williams, M.A. a'r Parch. Islwyn Pritchard, B.A. yn cymeryd y rhannau defosiynol. Yn yr hwyr, dan lywyddiaeth y Gweinidog, pregethwyd gan y Parchn. Aubrey Martin, B.A. a D. Jacob Davies, B.A., a'r Parch. Lewis Williams yn cymeryd y rhannau arweiniol. Gorffennwyd trwy weddi gan y Parch. D. A. Williams, Carmel.—Y Sul dilynol cynhaliwyd gwasanaeth arbennig gan aelodau yr Ysgol Sul—"Coroni'r Dyfodol"—a Miss Betty Jones, Llwyn Smithy yn Frenhines yr achos.—Ar Hydref 12fed cynhaliodd "Urdd y Benywod" eu ' Sale of Work.' Agorwyd y ' Sale ' gan Mrs. Cissie Morris, Aberteifi (gynt o Benarwel—ac ysgrifenyddes yr Urdd am flynydd-oedd). Cafwyd llwyddiant mawr ar y gwaith, a choronwyd y fenter i'r swm o oddeutu £200—Felly hefyd y gyngerdd a ddilynwyd yn yr hwyr dan lywyddiaeth y Cynghorwr Griffith Davies, Pontshaen. Perfformiwyd dwy ddrama gan y plant—"Potch" gan blant Pantydefaid a "Y Feddygyniaeth" gan blant y Graig.—Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch ar nos Lun, 17 Tach., a'r Parch. Aubrey Martin, B.A. yn pregethu.—Estynnir ein cydymdeimlad i Mrs. Evans y Felin ar farwolaeth ei hannwyl fam.

GRAIG.—Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolch am y Cynhaeaf ar Llun, Hydref 13, a'r Parch. Aubrey J. Martin, B.A. yn gwasanaethu. Boed i Mr. Martin lwyddiant mawr yn ei weinidogaeth newydd.—Cychwynwyd gyda gwaith "Cymdeithas y Plant" Hydref 9fed. Drwy'r wythnosau buwyd yn

brysur gyda'r ddrama "Feddyginiaeth"—a drefnwyd gan y Gweinidog, ac a berfformiwyd yn Neuadd Pantydefaid nos Fercher, Tachwedd 12.—Dechreuodd Urdd y Benywod a gwaith y Tymor nos Wener, Medi 12fed. Ar Hydref 17 cynhaliwyd "Bring and Buy Sale". Hydref 31ain cafwyd crynhoad ar drafodaeth "Cyfarfodydd Urdd y Benywodd yng Nghaerdydd" gan Mrs. Parke Davies, ac ar Tachwedd 14, cafwyd darlith odidog gan Miss Mari Davies-Evans, B.A. ar "Ein Hetifeddiaeth Lenyddol fel Cenedl". Blin gennym golli Miss Evans o'n cyfeillach a hithau wedi bod mor ffyddlon ym mhob rhyw ffordd oddiar ei dyfodiad i'r cylch fel Athrawes Gymraeg yn Ysgol y Sir. Llwydd mawr iddi yn ei hysgol newydd yn Rhiwabon.—Ail gychwynwyd Cymdeithas y Ddrama Hydref 3ydd. Drama o waith J. O. Francis—"Y Bobl fach ddu"a berfformir eleni.—Llongyfarchion i'r Parch. Dd. Rhydderch, B.A. ar ddathliad ei 26 mlynedd fel Gweinidog Seion.—Dymuniadau gorau i Miss Maureen Evans, Dolgrogws a hithau erbyn hyn wedi glanio yn ynys Syra.

NEWID PULPUDAU.—Sul, Tachwedd 2, newidiwyd pulpudau gan y Parchn. Noel James a J. Marles Thomas.

Y BOBL IFAINC.—Yn ddiweddar sefydlwyd adran o "Urdd y Bobl Ifainc Undodaidd" cydrhwng Pantydefaid a'r Graig. Cynhaliwyd y cyfarfod trefnu yn Neuadd y Graig nos Fercher, Hydref 29ain, a chafwyd cynulliad da. Etholwyd Mr. D. G. E. Davies, M.R.C.V.S., Faerdre yn Llywydd ; Miss Sally Davies, Gwion Castle yn Is-Lywydd ; Miss Nansi Davies, Sychdy yn Ysgrifenyddes, a Mr. Alun Davies, Laura House yn Drysorydd. Trefnir cyfarfod yn Neuaddau y ddwy eglwys bob yn ail bythefnos drwy'r tymor.

ANRHEGU.—"Ar ddydd angladd", medd rhywun, "y cenir clod, ac y telir gwrogaeth". Ond am y tro, beth bynnag, fe'i cafwyd yn wahanol ym Mhantydefaid ar brynhawn Sul, Medi 12fed. Nid yn aml y cynhelir gwasanaeth fel hwn. "Dim ond unwaith mewn 50 mlynedd", meddai un oedd yno. Ie ! gwasanaeth ydoedd i gydnabod "Gwasanaeth". Diolch nad ydi ffyddlondeb wedi peidio yn ein plith, nad ydi sêl at y pethau gorau wedi diflannu o'r tir. Dyna fel y teimlai y Gynulleidfa luosog ddaeth ynghyd y prynhawn hwnnw i anrhegu dau hen gyfaill,—a dau Swyddog ffyddlon yr achos am flynyddoedd yn y lle. Nid i Bantydefaid yn unig y mae y ddau yn adnabyddus, ond i gylch eang, ac i holl eglwysi Undodaidd y Sir. Pwy na ŵyr am ffyddlondeb y "Boneddwr o Benarwel", ac am ei sêl gyda'r canu am dros 50 mlynedd yn y lle, ac fel Trysorydd yr Achos am yn agos yr un cyfnod ? Pwy hefyd na ŵyr am y gŵr ffraeth, y pregethwr hwylus, a'r hen Swyddog ffyddlon, Mr. Bryn Jones, fu yn Ysgrifennydd yr Achos am dros 26 mlynedd ? I'r ddau dywedwn heddiw o galon wresog—"*diolch*". Ar ran y gynulleidfa cyflwynodd yr Henadur Josiah R. Jones, Derw Cottage anrheg o "Ddesg" i Mr. Thomas ; a Mr. Thomas Lloyd, Pyllau'rbryn "Gadair Esmwyth" i Mr. Jones. Y mae dau Swyddog newydd heddiw yn llanw'r ddwy Gadair Swyddogol, a ieuenctid wrth ddesg y cyfrifon—"Eraill a lafuriasant, *hwythau* a aethant i mewn i'w llafur hwynt",—a ninnau ym Mhantydefaid yn falch o barchu y ddeu-ddyn hyn. Boed iddynt ill dau eu Gwobr eto gan "Wobrwywr y Cyfiawn".

Y Safle yng Nghymru—Ateb

ANNWYL OLYGYDD,—

GWENDID naturiol yr ifanc yw diffyg goddefgarwch ac y mae'n bwysig i ŵr ifanc ofalu nad elo'r anoddefgarwch yma yn amheuaeth llwyr (*complete scepticism*). Gwelaf berygl i'r gŵr ifanc galluog a sgrifennodd yr erthygl yn rhifyn Hydref, y perygl iddo ymollwng a mynd yn amheuwr.

Y mae ehangder yn nodwedd o Undodiaeth bob amser ac yn hyn o beth ceir rhyddid oddi wrth bendantrwydd. Ni chredwn yn y Drindod ond os dewisa Trindodwr addoli gyda ni o'i ewyllys rydd, a hyd yn oed dod yn aelod os myn, yr ydym yn llawen o'i gael i'n cwmni, ac ni ofynnwn iddo ddiffinio ei gredo. Fel Cledlyn yr wyf i'n perthyn i aden chwith Undodiaeth, yn wir y mae'n bosib y caf fy ngalw yn anffyddiwr gan rai ohonoch, eto'i gyd 'rwy'n hapus iawn o gael addoli mewn eglwys Undodaidd. A hyd yn hyn nid oes un o'm cyd-addolwyr wedi awgrymu fy nhaflu allan. Paham felly y dylwn i awgrymu i Drindodwyr nad oes groeso iddynt hwy addoli gyda ni os mynnant hynny? Flynyddoedd mawr yn ôl cefais ffrind annwyl o gyd-fyfyriwr (y mae yn Athro ym Mhrifysgol Glasgow heddiw) ac yr oedd ef yn aelod o Eglwys Loegr, eithr yr oedd ei ddaliadau mor Undodol, a dweud y lleiaf, a fy rhai i. Mewn ateb i'm gofyniad dywedai ei fod yn credu ei bod yn well iddo aros yn yr Eglwys Esgobol gan wneud ei ran fechan er mwyn ei diwygio o'r tu mewn. Y mae'r Eglwys honno heddiw yn ddigon eang i gynnwys y Dr. Barnes ar yr un llaw a Dr. Ward ar y llaw arall. A ydyw Eglwys Loegr i ragori arnom ni yn ei rhyddfrydiaeth?

Y mae'n bosibl fod y mwyafrif o'r Undodiaid Saesneg wedi cydio yn ei ffydd drwy resymu athronyddol ond rhaid cofio fod y rhan fwyaf o Undodiaid Cymru wedi datblygu fel Undodiaid ysgrythurol (e.e. credaf fod gweithred un o'n eglwysi yn cyfyngu ei gweinidogaeth i ŵr o'r math yma). Nid oes gennyf unrhyw gydymdeimlad â'r fath gredo ond yr wyf yn cyd-ymddwyn â hwy fel cyd-aelodau yn hapus dros ben.

Beirniedir David Peters, gŵr a oedd yn Brif Athro Coleg Caerfyrddin dros ganrif yn ôl yn llym yn aml am iddo wrthod derbyn rhai myfyrwyr Undodaidd —(yr oedd ef yn Drindodwr). Ond rhaid i ni fod yn deg ag ef. Dehonglodd draddodiad y Coleg fel un rhyddfrydig a gwrthodod Undodwr os oedd yn rhy gul ei feddwl a rhy ddogmatig yn ei gredo. Yn yr un ffordd gwrthododd le i Drindodwr a oedd yn Galfin cul.

Un rhybudd pellach. Mwynhaodd a gwawdiodd Caradoc Evans wendidau rhai o'r Cymry o flaen Llundain flynyddoedd yn ôl yn union fel petai'r gwendidau y soniai amdanynt yn nodweddiadol o'r Cymry drwyddi-draw. Gobeithio nad yw Mr. Basil Hopkin am wneud yr un peth o flaen y Y.P.L. Cytunaf yn llwyr ag ef fod angen dygn am fwy o wir Undodiaeth ond na fydded i ni golli ein dawn o degwch. R.O.J.

O.N. (*Golygyddol*).—Ymddengys ateb y Golygydd yn y *Young Unitarian*: ei gred ef yw mai tynnu coes yn bur effeithiol yr oedd Basil! Y mae gormodiaeth yn rhan o hen grefft y Beirniad ac o brofiad personol gwn am barch Caradoc (er gwaethaf ei wendidau) i weinidog, yr alwedigaeth a wnaeth yn gocyn hitio yn ei ysgrifau.

"TYWYDD OER, TUEDD EIRA".

Oerni'r Byd.

Daeth gaeaf, aeth haf, a thes—yr heulwen
O'r aelwyd a'r fynwes ;
Gwenaf ond nid wy'n gynnes ;
Heddiw i'r grat ni ddaw'r gwres.

J. R. Morris.

O Gywydd y Rhew a'r Eira.

Eira gwyn yn oeri gwedd,
A'r lluwch yn cuddio'r llechwedd ;
Pob lle'n oer, pob llwyn yn wyn,
A diffrwd fydd y dyffryn.

Lewis Morris.

"Cyrnel Rhydnis".

Pan droio yr awel i rewi
Yn dawel i'r efail yr af.

Y Gaeaf, 1823.

Barrug oer y bore a gaf—rhew llwyd,
Och annwyd achwynaf.
Anfoddog iawn a fyddaf,
Mewn adfyd, heb hawddfyd haf.

Horeb. Evan Thomas.

Y Dydd Byrraf.

Y rhyfedd oer, fyrraf ddydd—yn rhwygfa
Rhagfyr a'i stormydd ;
Yn lle hoen a llawenydd,
Oerni a'i sêl arno sydd.

Mis Ionawr.

Mis creulon wyt ti, Ionawr,—
Ti yw mis y cotiau mawr.

M.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.